

# Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)

Uned Llanfair – Ward Cenhinen Bedr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r

Fro

Dyddiad yr arolygiad:

9 – 11 Ionawr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	13
4.	Beth nesaf? .....	27
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG .....	28
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	29
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl dirybudd o Uned Llanfair, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rhwng 9 a 11 Ionawr 2018. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Uned Llanfair – Ward Cenhinen Bedr – Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygwr AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig), ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015). Ble y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Roedd gofal yn cael ei ddarparu i safon uchel gan dîm ymroddedig ac mewn ffordd barchus. Roedd prosesau ar waith i sicrhau gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau wrth reoli meddyginiaethau ac mewn perthynas ag archwiliadau o ystafelloedd clinigol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd parchus.
- Darparwyd amrywiaeth o gyfleusterau priodol mewn amgylchedd gofal dymunol iawn.
- Gwelsom waith tîm amlddisgyblaethol da a gwaith cydweithredol gyda thimau cymunedol.
- Roedd dogfennaeth gyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cael cefnogaeth gan gyfarwyddiaethau eraill i leihau ynysiad Uned Llanfair.
- Rheoli meddyginiaethau ac archwiliadau o ystafelloedd clinigol.
- Cwblhau hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau personol ac adolygiadau datblygiad.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Ward Cenhinen Bedr ar Uned Llanfair yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Ysbyty Athrofaol Llandochau, Heol Pen-lan, Llandochau, CF64 2XX, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y ward 17 o welyau er mwyn asesu a thrin iechyd meddwl gweithredol pobl hŷn, ac mae'r ward yn gymysg o ran rhyw. Ar adeg ein harolygiad, roedd 15 o gleifion yn derbyn gofal ar y ward.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr ward, dau ddirprwy reolwr ward, a thîm o nyrsys iechyd meddwl cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd. Roedd pum clinigwr cyfrifol, sy'n gweithio ar draws y timau gwasanaeth i gleifion mewnol a'r timau cymunedol sydd â chanolfan mewn lleoliad daearyddol.

Gallai'r tîm hefyd gael mynediad i ddisgyblaethau eraill megis therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, deieteg, a therapi iaith a lleferydd, ac roedd ganddo wasanaeth dyddiol gan feddygon teulu.

Agorodd Ward Cenhinen Bedr ym mis Medi 2017 ar ôl cyfuno wardiau Dwyrain 14 a Dwyrain 16 ym mhrif Ysbyty Llandochau a'u hadleoli yn Uned Llanfair ar dir Ysbyty Llandochau. Roedd tîm staff Ward Cenhinen Bedr yn bennaf yn cynnwys staff a oedd wedi gweithio'n flaenorol yn wardiau Dwyrain 14 neu Ddwyrain 16.

Mae timau cymunedol Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn y bwrdd iechyd i fyny'r grisiau yn Uned Llanfair. Mae Uned Llanfair hefyd yn cynnwys Ward y Ddôl, sy'n darparu gofal adfer iechyd meddwl i oedolion rhwng 18 a 65 oed.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod profiad y claf ar Ward Cenhinen Bedr o safon uchel gyda gofal yn cael ei ddarparu gan dîm ymroddedig mewn modd parchus.

Gwnaeth y cleifion ddarparu adborth cadarnhaol ar y gofal roeddent wedi'i dderbyn ar y ward a gwelsom amrywiaeth o gardiau diolch yn cael eu harddangos.

Roedd yr amgylchedd ar y ward yn addas i'r grŵp cleifion ac roedd yn lân ac wedi'i ailwampio i safon uchel. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o waith heb ei orffen oedd angen ei gwblhau gan adran ystadau'r bwrdd iechyd.

## Cadw'n iach

Roedd amrediad o weithgareddau priodol ar y ward i gleifion, gan gynnwys llyfrau, gemau bwrdd, gweithgareddau a gemau grŵp, gweithgareddau corfforol ysgafn, celf a chreffft, ac ati. Gallai'r rhain ddarparu ysgogiad ymenyddol ac ymarferion ysgafn i gleifion a oedd yn briodol i'w hanghenion gofal.

Roedd gan y ward nyrs newid pwyslais ddynodedig a oedd yn hwyluso amrywiaeth o weithgareddau; roedd gan staff y ward fynediad hefyd i amrywiaeth o weithgareddau fel y gallent hwyluso gweithgareddau ychwanegol ar y ward. Roedd ystafell celf a chreffft a salon trin gwallt ac ewinedd ar gael ar y ward i'r cleifion, yn ogystal â chegin gweithgareddau beunyddiol yn Uned Llanfair.

Roedd mewnbwn ar y ward gan therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion, a oedd yn darparu sesiynau asesu a therapi unigol i gleifion.

Roedd hi'n gadarnhaol clywed am wirfoddolwr a oedd yn dod i'r ward ddwywaith yr wythnos i hwyluso gweithgareddau grŵp i'r cleifion.

Gallai'r cleifion gael mynediad i'w hystafelloedd gwely drwy gydol y dydd. Roedd gan y ward nifer o ystafelloedd cymunedol ac ardaloedd lle gallai'r



cleifion gael mynediad fel grŵp neu ar eu pen eu hunain, i ffwrdd o'r cleifion eraill os dymument.

Roedd gan y cleifion hefyd fynediad i ardd ddiogel fawr; fodd bynnag, roedd angen rhoi sylw iddi er mwyn sicrhau ei bod yn fwy addas at ddefnydd y cleifion. Esboniodd staff y ward eu dymuniad i wella'r ardd i helpu i wella profiad y claf. Rhaid i'r bwrdd iechyd gefnogi'r staff wrth ddatblygu'r ardd i gynnig ardal ddymunol i ymlacio ynddi a chael awyr iach.

Roedd y bwyd a ddarperir i gleifion yn rhoi dewis cytbwys o brydau, gyda ffrwythau ffres a diodydd ar gael yn hwylus.

Doedd dim hawl i ysmegu yn yr ysbyty. Roedd amrywiaeth o gynnyrch rhoi'r gorau i ysmegu ar gael i gleifion a oedd am dderbyn cymorth i beidio ag ysmegu yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd gefnogi'r ward gyda'i chynlluniau i ddatblygu'r ardd i wella profiad y claf.

### **Gofal ag urddas**

Gwelsom y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion mewn modd priodol ac yn trin cleifion ag urddas a pharch. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymrwymedig i ddarparu gofal ag urddas i'r cleifion.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion gyda lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Pan oedd cleifion yn mynd at aelodau staff, roeddent yn ymateb gydag agweddau caredig ac ymatebol. Ar y cyfan, gwnaethom arsylwi ar y staff yn dangos parch tuag at gleifion, gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol i geisio atal ymddygiad cleifion rhag gwaethygu.

Roedd hi'n gadarnhaol cyn agor y ward ym mis Medi 2017 fod y bwrdd iechyd wedi cynnwys staff y ward wrth ailwampio'r ward. Cafwyd ymdrechion cydunol i sicrhau bod y ward wedi'i dodrefnu a'i haddurno'n briodol er y grŵp cleifion. Rodd y ward yn darparu manau cyfforddus, cartrefol, tawel a chymunedol ac roedd sawl enghraifft o gyffyrddiadau cartrefol chwaethus. Roedd hi'n ganmoladwy fod staff y ward wedi ymgymryd â gweithgareddau codi arian i ariannu gwelliannau ychwanegol i amgylchedd y ward ac yn parhau i wneud hynny.

Ar adeg yr arolygiad, roedd yr amgylchedd yn ddymunol iawn ac yn darparu amgylchedd hamddenol i'r cleifion dderbyn gofal ynddo. Fodd bynnag, roedd angen cwblhau rhai ardaloedd oedd yn cael eu hailwampio gan adran ystadau'r bwrdd iechyd, megis gosod bleinds, arwyddion ar ddrysau ystafelloedd gwely, a gwaith bach arall.

Roedd 15 o ystafelloedd gwely unigol ac un ystafell â dau wely ynddi; roedd mesurau preifatrwydd priodol ar waith rhwng y ddau wely yn yr ystafell a rennir. Roedd modd cloi drysau'r ystafelloedd gwely o'r tu mewn er mwyn atal cleifion eraill rhag dod i'r ystafell; gallai'r staff agor y cloeon os oedd angen.

Roedd y ward wedi'i rhannu'n ddwy, gydag ardal o ystafelloedd gwely i ddynion ac ardal o ystafelloedd gwely i fenywod, ac roedd gan y ddwy ardal neilltuedig doiledau a chawodydd penodol i ryw. Roedd baddon ar gael, y gellid cael mynediad iddo drwy fynedfeydd ar wahân o ochrau dynion a menywod y ward. Roedd lleoliad y cyfleusterau hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion wrth eu defnyddio oherwydd gallai cleifion gael mynediad iddynt heb adael yr ardal a oedd yn benodol i'w rhyw.

Roedd gan y ward amseroedd ymweld penodol; fodd bynnag, cadarnhaodd y staff eu bod yn hyblyg o ran ymwelwyr yn seiliedig ar amgylchiadau unigol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwaith ystadau sy'n weddill ar gyfer Ward Cenhinen Bedr yn cael ei gwblhau mor gyflym â phosibl.

#### Gwybodaeth i gleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth wedi'i harddangos i gleifion ac ymwelwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth annibynnol, y cyngor iechyd cymuned, sefydliadau elusennol, sut i roi adborth ar y gwasanaeth, a sut i wneud cwyn. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos ar swyddogaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) na'i manylion cyswllt.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy ein harsylwadau o'r rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n dda â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol. Lle'r oedd cleifion yn parhau'n aneglur neu wedi camddeall, byddai staff yn esbonio'r hyn roeddent wedi ei ddweud yn amyneddgar.

## Gofal unigol

### Hawliau pobl

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) neu atal cleifion rhag gadael yr ysbyty drwy'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, er bod gwybodaeth yn cael ei dangos i hysbysu cleifion nad oeddent yn gyfyngedig gan y Ddeddf neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ynghylch eu hawliau i adael, nid oedd hyn yn agos at allanfa'r ward. Cadarnhaodd rheolwr y practis y byddai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei gosod ger yr allanfa fel ei bod yn fwy amlwg.

Gallai'r cleifion hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol gyda chynrychiolydd a oedd yn mynychu'r ysbyty bob wythnos. Gallai'r cleifion gael mynediad hefyd at y gwasanaeth eiriolaeth galluedd meddyliol annibynnol.

Roedd lleoedd addas i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn breifat ynghyd â threfniadau i wneud galwadau ffôn preifat gan ddefnyddio ffôn y ward neu ffonau symudol y cleifion eu hunain.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod gwybodaeth yn esbonio'r broses i adael y ward i gleifion nad ydynt yn gyfyngedig gan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ger allanfa'r ward.

### Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd cyfle ar gael i gleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth ar y gofal a ddarperir ar Ward Cenhinen Bedr. Roedd gwybodaeth am broses "Gweithio i Wella" y GIG wedi'i harddangos ynghyd â gwybodaeth gyswllt ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth a'r cyngor iechyd cymuned. Fel y nodwyd uchod, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos ynghylch AGIC.

Roedd hi'n gadarnhaol gweld cardiau diolch niferus ar y ward gan gyn-gleifion ac aelodau'r teulu. Gwelsom hefyd fod yr adborth a oedd wedi cael ei dderbyn ar lefel uwch yn y sefydliad yn cael ei raeadru i staff.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd y rhain yn rhoi cymorth i'r staff ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau o ran rheoli meddyginiaethau ac mewn perthynas ag archwiliadau o ystafelloedd clinigol.

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system fwyaf ymatebol ar gyfer diogelwch cleifion ar waith yn Uned Llanfair pe bai achos o argyfwng meddygol.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd mynediad i'r ward yn ddiogel i atal mynediad heb awdurdod. Gallai'r staff fynd i mewn i'r ward gan ddefnyddio cardiau adnabod y bwrdd iechyd ac roedd ymwelwyr yn canu'r gloch wrth fynedfeydd yr uned a'r ward. Roedd y ward i lawr y grisiau o'r brif fynedfa; roedd modd cael mynediad iddi naill ai drwy'r grisiau neu'r lifft fel bod mynediad hygyrch i bawb.

Roedd gan y staff larymau personol i alw am gymorth pe bai angen. Roedd pwyntiau galw am nyrs o amgylch y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn i'r cleifion allu galw am gymorth pe bai angen.

Roedd cleifion unigol yn cael eu hasesu i benderfynu a oedd angen synwryddion symud yn y gwely i dynnu sylw staff petai claf yn codi o'i wely, a allai beri niwed, megis claf yn cwmpo. Fodd bynnag, yn ystod noson gyntaf ein harolygiad, nodwyd bod y larymau synwryddion gwely'n hynod swllyd a bod ganddynt y potensial i amharu ar gwsgr cleifion eraill, gan gael effaith felly ar eu llesiant meddyliol a chorfforol. Cawsom wybod hefyd fod y broblem yn cael ei

gwaethygu gan y ffaith fod y synwryddion yn seinio'r larwm pan oedd cleifion yn symud yn y gwely wrth iddynt gysgu ac nid yn gadael y gwely. Cadarnhaodd rheolwr y ward fod y broblem wedi cael ei chodi gan y staff a bod y bwrdd iechyd yn aros i'r contractwr adolygu'r broblem a rhoi ateb iddi.

Rodd gan ddrysau ystafelloedd gwely cleifion baneli arsylwi fel y gallai'r staff weld cleifion yn eu hystafelloedd gwely heb orfod agor y drws ac aflonyddu ar eu cwsg o bosib. Fodd bynnag, dywedodd y staff eu bod yn eithaf aml yn methu â sicrhau'n ddiogel fod y cleifion yn ddiogel yn eu hystafelloedd gwely oherwydd goleuadau gwael, ac felly byddai'n rhaid iddynt fynd i ystafell wely'r claf i arsylwi ar y claf mewn modd priodol. Mae angen i'r bwrdd iechyd adolygu ystafelloedd y cleifion fel gall y staff sicrhau bod y cleifion yn ddiogel drwy arsylwi arnynt drwy'r panel arsylwi a lleihau'r angen i fynd i mewn i'r ystafell wely i arsylwi ar y claf, a allai effeithio ar ei gwsg.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau ar y ward yn briodol ar gyfer y grwpiau cleifion. Roedd asesiadau risg pwyntiau clymu cyfredol ar waith ar y ward, a oedd yn nodi pwyntiau clymu posib a'r camau gweithredu oedd rhaid eu cymryd i symud neu reoli'r rhain. Cawsom wybod bod gwaith gwrth-glymu ychwanegol yn yr arfaeth i symud rhai pwyntiau clymu, a fyddai'n lleihau'r perygl o hunan-niweidio gan gleifion.

Yn ôl yr ystadegau hyfforddiant, roedd gan 75% o'r staff ar Ward Cenhinen Bedr hyfforddiant cardio-pwlmonaidd diweddar. Roedd hyn yn golygu y byddai staff ward ar gael i fynd i'r afael ag argyfwng meddygol wrth i staff meddygol brys arbenigol ddod i'r ward.

Fodd bynnag, er bod Uned Llanfair ar safle Ysbyty Llandochau, nid oedd Uned Llanfair yn derbyn unrhyw gymorth meddygol mewn argyfwng gan "dîm brys" Ysbyty Llandochau.<sup>1</sup> Oes oes argyfwng claf, mae'n rhaid i'r staff ffonio'r gwasanaethau brys ar 999. Rydym wedi nodi problemau tebyg ynghylch gofal unedig rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau meddygol yn Ysbyty Llandochau yn ystod arolygiadau blaenorol. Er ein bod wedi cael ein sicrhau bod y problemau hyn yn gwella ym mhrif adeilad yr ysbyty, yn wardiau

---

<sup>1</sup> Y tîm brys – ymarferwyr meddygol sy'n ymateb i argyfyngau meddygol sy'n peri risg i fywyd mewn ysbyty, megis methiant y galon neu fethiant resbiradol.

eraill y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, megis Uned Llanfair, mae'r problemau mewn achosion brys yn parhau.

Cawsom wybod, oherwydd lleoliad ynysig Uned Llanfair ar safle Ysbyty Llandochau, nad oedd yn ymarferol i'r tîm brys ddod â'i gyfarpar brys i Uned Llanfair (gan adael y prif ysbyty heb unrhyw dîm ymateb brys a chyfarpar cysylltiedig); felly roedd Uned Llanfair yn dibynnu ar y gwasanaethau brys drwy ffonio 999.

Er bod y staff ar y ward y gwnaethom siarad â hwy'n ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn yn achos argyfwng meddygol, gwnaeth y staff leisio'u pryderon ynghylch y trefniadau oherwydd oedi canfyddedig wrth ymateb gan y gwasanaethau brys ar ôl ffonio 999. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r bwrdd iechyd fod trafodaethau parhaus yn mynd rhagddo ynghylch y trefniadau mewn achos o argyfwng meddygol yn Uned Llanfair i sicrhau mai'r weithdrefn i'w dilyn oedd y mwyaf priodol.

Roedd 78% o'r staff ar y ward wedi derbyn hyfforddiant Strategaethau ac Ymyriadau ar gyfer Rheoli Ymddygiad Ymosodol, sef dull y bwrdd iechyd o reoli trais ac ymddygiad ymosodol yn ddiogel. Fel y nodir uchod, gwnaeth y staff ryngweithio'n brydlon ac yn briodol â chleifion i atal ymddygiad cleifion rhag gwaethygu ac roeddent felly'n gallu atal achosion o hyn gymaint â phosib.

Cadarnhaodd y staff fod perthynas waith agos â'r ward arall yn Uned Llanfair (Ward y Ddôl) ac, os oedd angen, y byddai staff o'r ward arall yn dod i helpu er mwyn rheoli unrhyw ymddygiad treisgar neu ymosodol gan gleifion. Trwy adolygu'r data adrodd am achosion ar gyfer y ward, gwelwyd y bu dau achos yn unig o drais neu ymddygiad ymosodol ers i'r ward agor ym mis Medi 2017, ac nid oedd un o'r ddau wedi peri niwed i'r claf neu'r staff.

Roedd gan y ward Ystafell Gofal Dwys, a oedd yn galluogi i staff ofalu am glaf mewn ardal dawelach o'r ward, i ffwrdd o'r cleifion eraill, i helpu i reoli ymddygiad ymosodol. Roedd y staff ar y ward wedi tynnu sylw at feysydd i'w gweld a fyddai'n helpu staff wrth ddarparu cefnogaeth ddiogelach i gleifion; roedd y bwrdd iechyd yn ystyried y gwelliannau hyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod synwryddion gwely'n gweithio'n effeithiol ond heb aflonyddu ar gwsg cleifion eraill.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn gallu arsylwi ar gleifion drwy baneli arsylwi ystafelloedd gwely i leihau'r angen i fynd i mewn i'r ystafell wely, a allai amharu ar eu cwsg.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod y gwaith gwrth-glymu ychwanegol sydd yn yr arfaeth, i symud rhai pwyntiau clymu, wedi cael ei gwblhau.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system fwyaf ymatebol ar waith o ran diogelwch cleifion yn Uned Llanfair pe bai achos o argyfwng meddygol.

Dylai'r bwrdd iechyd ymgymryd â gwelliannau i'r Ystafell Gofal Dwys i helpu staff wrth ddarparu cefnogaeth ddiogelach i gleifion.

### **Atal a rheoli heintiau**

Trwy gydol yr arolygiad, gwelsom fod yr ysbyty'n lân, yn ôl pob golwg, ac yn rhydd rhag annibendod. Roedd offer glanhau wedi eu storio a'u trefnu'n briodol. Roedd gan y ward staff cadw tŷ dynodedig a oedd yn cynnal glanweithdra'r ward drwy gydol y dydd.

Roedd cynnyrch hylendid dwylo ar gael yn yr ardaloedd perthnasol o'r ysbyty; roedd arwyddion priodol gyda'r rhain. Roedd gan staff hefyd fynediad at gyfarpar diogelu personol er mwyn atal a rheoli heintiau a dadheintio pan oedd ei angen.

Roedd biniau priodol ar gael i gael gwared ar eitemau meddygol miniog ac nid oedd y rhain wedi cael eu gorlenwi. Roedd sachau gwastraff â chod lliw ar gael fel y gallai'r staff rannu a gwaredu gwastraff yn gywir. Fodd bynnag, nid oedd yr holl staff y gwnaethom siarad â hwy'n glir o ran codau lliw'r sachau gwastraff.

Roedd cyfleusterau golchi dillad yn Uned Llanfair ac roedd y rhain yn gweithio'n gywir. Fodd bynnag, roedd yr ystafell storio dillad a dillad gwely yn rhy fach am y symiau yr oedd eu hangen ar y ward. Ar adeg yr arolygiad, esboniodd rheolwr y ward ei fod eisoes wedi amlygu'r broblem hon a'i fod yn aros am le storio ychwanegol i gael ei osod gan dimau ystadau'r bwrdd iechyd ac i'r manau storio ar y ward gael eu haildrefnu.

### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le i storio dillad a dillad gwely ar Ward Cenhinen Bedr.

### **Maeth a hydradu**



Darparwyd prydau bwyd i'r cleifion yn yr ysbyty ac roeddent yn dewis o fwydlen yr ysbyty. Roedd gan y ward amserau prydau bwyd wedi'u diogelu i sicrhau nad yw cleifion yn cael eu hymyrryd yn ddiangen wrth fwyta eu prydau.

Gwelsom ddewis o brydau ac roeddent yn edrych ac yn arogl'i'n flasus. Roedd gan gleifion hefyd fynediad i ffrwythau ffres a byrbrydau, ynghyd â diodydd poeth ac oer. Roedd tystiolaeth fod y cleifion yn derbyn llestri addas wedi'u haddasu i'w helpu wrth fwyta ac yfed ar eu pennau eu hunain. Fodd bynnag, roedd nifer o'r cwpanau wedi treulio ac efallai y bydd angen cael rhai newydd.

Roedd gan y ward fewnbwn gan y timau deieteg a lleferydd ac iaith; roedd unrhyw ofynion neu ddewisiadau dietegol arbennig gan glaf unigol yn cael eu nodi.

Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod y staff yn darparu profiad amser bwyd cadarnhaol trwy sicrhau bod y byrddau'n ddeniadol, gyda lliain bwrdd a chyllyll a ffyrc wedi'u gosod, cyn i'r cleifion ddod i fwyta.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llestri a'r cyllyll a ffyrc yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u disodli yn ôl y gofyn.

#### Rheoli meddyginiaethau

Roedd angen gwneud rhai gwelliannau i sicrhau bod y gwaith o reoli meddyginiaethau ar Ward Cenhinen Bedr yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn ogystal, roedd ystafell y clinig yn anhrefnus ac yn anniben.

Nid oedd modd cloi'r troli meddyginiaeth a oedd yn cael ei ddefnyddio ar Ward Cenhinen Bedr; felly, nid oedd y feddyginiaeth ar y troli mor ddiogel ag y gallai fod. Roedd troli meddyginiaeth newydd wedi cael ei archebu, ond nid oedd wedi cyrraedd y ward yn ystod cyfnod ein harolygiad. Gwelsom hefyd, ar nifer o achlysuron pan nad oedd y troli meddyginiaeth yn cael ei ddefnyddio a'i fod yn cael ei storio yn ystafell y clinig, nad oedd wedi'i ddiogelu i'r wal i'w atal rhag cael ei symud o'r clinig gan unigolion heb awdurdod.

Nodwyd hefyd nad oedd oergelloedd meddyginiaeth bob tro'n cael eu cloi pan nad oedd staff yn eu defnyddio; felly, nid oedd y feddyginiaeth mor ddiogel ag y gallai fod. Roedd tystiolaeth fod gwiriadau tymheredd rheolaidd ar yr oergell feddyginiaeth i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y cynhyrchydd. Fodd bynnag, roedd tymheredd ystafell y clinig yn gynnes iawn ac rydym yn argymhell felly fod tymheredd amgylchynol ystafell

y clinig yn cael ei fonitro i sicrhau nad yw'r tymheredd yn mynd yn uwch na'r arweiniad proffesiynol nac unrhyw ganllawiau ar storio meddyginiaeth gan gynhyrchydd.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer storio a defnyddio cyffuriau a reolir a chyffuriau sy'n agored i gael eu camddefnyddio, ac roedd y rhain yn cael eu cyfrif a'u gwirio bob dydd.

Roedd y siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd rheswm pan nad oedd y feddyginiaeth yn cael ei rhoi. Fodd bynnag, nid oedd y dudalen flaen a oedd yn cynnwys manylion y claf yn cael ei chwblhau'n llawn bob tro neu roedd yn cynnwys manylion anghywir, megis statws cyfreithiol Deddf Iechyd Meddwl coll neu anghywir. Yn ogystal, nid oedd yr holl siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cynnwys lluniau adnabod o'r claf, sef proses y bwrdd iechyd ar gyfer adnabod cleifion ar wardiau'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn wrth weinyddu meddyginiaeth.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell y clinig ar Ward Cenhinen Bedr yn drefnus ac yn daclus.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troli meddyginiaeth yn cael ei ddisodli.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troli meddyginiaeth yn cael ei ddiogelu yn ystafell y clinig pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth yn cael ei chloi pan nad yw'r staff yn ei defnyddio.

Dylai'r bwrdd iechyd fonitro tymheredd amgylchynol ystafell y clinig.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau i gynnwys yr hyn sy'n ofynnol, sef gwybodaeth bersonol am y claf a llun adnabod diweddar.

#### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwnaeth y staff gadarnhau bod prosesau wedi'u hen sefydlu ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau'n cael eu gwneud i asiantaethau allanol yn ôl yr angen. Fodd bynnag, roedd ystadegau hyfforddiant yn dangos mai 25% a 31% yn unig o'r staff a oedd wedi derbyn hyfforddiant diogelu plant a diogelu oedolion

diweddar, yn y drefn honno. Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant yn y meysydd hyn.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Roedd archwiliad dyddiol o offer dadebru; roedd y staff yn cofnodi'r rhain i sicrhau bod yr offer yn bresennol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wiriad rheolaidd i sicrhau nad oedd cyfarpar wedi mynd y tu hwnt i'w ddyddiad dod i ben.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau o ddyddiadau dod i ben offer dadebru yn cael eu cwblhau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch, a heintiau. Roedd hyn yn cynorthwyo'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau wrth reoli meddyginiaethau ac mewn perthynas ag archwiliadau o ystafelloedd clinigol.

### **Cadw cofnodion**

Roedd cofnodion cleifion yn gyfuniad o ffeiliau electronig a phapur a chawsant eu storio'n ddiogel drwy gydol ein harolygiad. Er mwyn cael mynediad at gofnodion electronig, roedd angen y rhif adnabod unigol a ddefnyddir gan aelodau o staff i gael mynediad at gyfrifiadur, ac roedd angen iddynt fewnosod cyfrinair hefyd. Roedd cofnodion papur yn cael eu storio a'u cynnal yn y swyddfa nyrsio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ffordd o waredu gwastraff cyfrinachol yn ddiogel yn y swyddfa nyrsio, a chadarnhawyd yn yr adborth i'r arolygiad y byddid yn mynd i'r afael â hyn yn brydlon i sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei gwaredu'n ddiogel.

Wrth adolygu cofnodion, gwnaethom nodi bod peth gwybodaeth ar goll o ffeiliau rhai cleifion ond ei bod yn gyfredol ar y cofnodion electronig; roedd rhaid i ni felly ofyn i'r staff egluro pa set o gofnodion oedd y diweddaraf. Roedd hyn yn golygu y gallai aelod o staff nad yw'n gyfarwydd â'r ward (e.e. staff wrth gefn) gyfeirio at wybodaeth nad yw'r mwyaf diweddar wrth ddarparu gofal. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg bod staff y ward a'n helpodd ni yn ystod yr arolygiad

yn gyfarwydd â'r cofnodion cyfrifiadur a phapur a'u bod yn gallu llywio'r ddwy system i'n harwain at leoliad priodol yr wybodaeth.

Roedd nodiadau'r staff mewn cofnodion cleifion yn glir ac o safon broffesiynol ac yn cynnwys enw'r aelod o staff, y dyddiad a'r amser. Roedd gan nodiadau strwythur clir, gan gyfeirio at iechyd meddwl ac anghenion corfforol y claf, a, lle y bo'n briodol, roeddent yn cynnwys dyfyniadau'n uniongyrchol gan y claf a oedd yn ehangu ar y farn a oedd wedi'i nodi yn y cofnodion. Roedd cofnodion cleifion hefyd yn dangos tystiolaeth o weithio integredig cadarn rhwng tîm amlddisgyblaethol y ward a thimau cymunedol.

Nid oedd unrhyw ddull parhaol i'r staff gynnal cyfrinachedd yr wybodaeth ar Fyrddau Cipolwg ar Statws Cleifion pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio. Roedd y staff wedi creu dull dros dro drwy orchuddio enwau cleifion â phapur, a oedd yn darparu lefel sylfaenol o gyfrinachedd. Fodd bynnag, nid oedd y dull hwn ar waith ar noson gyntaf yr arolygiad. Mae angen ffordd addas o orchuddio gwybodaeth gyfrinachol ar Fyrddau Cipolwg ar Statws Cleifion pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu systemau cofnodion cleifion i leihau achosion o ddyblygu gwybodaeth ac i sicrhau bod cofnodion papur ac electronig yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffordd addas i orchuddio gwybodaeth gyfrinachol ar Fyrddau Cipolwg ar Statws Cleifion pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

#### Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom adolygu dogfennau cadw statudol tri chlaf ar draws un ward, sef Ward Cenhinen Bedr.

Roedd hi'n amlwg bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r defnydd o'r Ddeddf neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Roedd gorchmynion cadw wedi cael eu cymhwyso a'u hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf.

Roedd y staff yn ymdrechu i hysbysu cleifion am eu hawliau statudol dan y Ddeddf. Roedd gan y cleifion fynediad i eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol ac roedd cofnodion manwl o gyfranogiad y gwasanaeth hwn yn nodiadau'r cleifion.

Roedd pob achos o absenoldeb trwy ganiatâd yr ysbyty wedi'i nodi'n glir, gan nodi diben ac amodau'r absenoldeb, ac roedd yr absenoldeb wedi'i awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei darparu i gleifion yn unol ag Adran 58 y Ddeddf, Cydsyniad i Driniaeth. Roedd tystysgrifau caniatâd i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth cyfatebol. Golygai hyn y gallai staff a oedd yn rhoi meddyginiaeth gyfeirio at y dystysgrif i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi o dan ddarpariaethau cydsynio i driniaeth Adran 58 y Ddeddf.

Roedd clinigwyr cyfrifol yn cofnodi canlyniadau'r asesiadau galluedd; fodd bynnag, roedd diffyg manylder yn yr asesiadau hyn ac, ar y cyfan, roeddent yn nodi bod "diffyg galluedd ar y claf" yn unig. Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw fanylion am yr asesiad galluedd a pha agwedd(au) ar ofal a/neu fywyd yr oedd y claf yn ddiffygiol ynddi/ynt. Dylai clinigwyr cyfrifol gofnodi canlyniadau'r asesiadau galluedd yn fanylach i nodi tystiolaeth o'u hasesiad a'r agwedd(au) ar ofal a/neu fywyd yr oedd y claf yn ddiffygiol ynddi/ynt (ar adeg yr asesiad) yn well.

Yn ystod ein sgysiau gyda thîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl, roedd hi'n gadarnhaol clywed am y mentrau a'r gwaith roeddent wedi bod yn ei wneud i wella gweithrediad y Ddeddf a'r monitro ohoni ar draws y bwrdd iechyd.

Roedd hyfforddiant yn y Ddeddf a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol bellach yn orfodol i'r staff yn y gyfarwyddiaeth iechyd meddwl. Roedd hyfforddiant ychwanegol wedi'i deilwra hefyd ar fin cael ei ddarparu i dîm y staff ar Ward Cenhinen Bedr i ddarparu gwybodaeth benodol ynghylch defnyddio'r Ddeddf mewn gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn. Roedd hefyd tudalen fewnrwyd, a oedd wedi cael ei datblygu gyda thîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl, y gallai staff y bwrdd iechyd gael mynediad iddi er arweiniad.

Roedd tîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd yn lledaenu gwybodaeth am newidiadau i gymhwyso'r Ddeddf yn dilyn diwygiadau i ddeddfwriaeth

berthnasol, megis Deddf Plismona a Throsedd 2017, sydd wedi cael effaith ar Adrannau 135 ac 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl.<sup>2</sup>

Roedd trefniadau llywodraethu ac archwilio cryf ar waith gan y bwrdd iechyd i sicrhau bod defnydd o'r Ddeddf yn cael ei fonitro a'i bod yn cael ei rhoi ar waith yn gywir. Roedd tîm gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl wedi datblygu system derbyn dogfennau statudol ar gyfer wardiau nad oeddent yn ymwneud ag iechyd meddwl. Felly, roedd llwybr archwilio clir o bapurau cadw statudol i sicrhau nad oedd y rhain yn cael eu colli ar wardiau nad oeddent yn ymwneud ag iechyd meddwl, a oedd wedi'i nodi fel risg gan y tîm gweinyddu. Dylid cymeradwyo'r arfer hwn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod clinigwyr cyfrifol yn cofnodi canlyniadau manwl asesiadau galluedd.

### **Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal**

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal cyfanswm o ddau o gleifion. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru, ond roedd nifer o feysydd a oedd yn nodi nad oeddent yn gymwys heb roi esboniad. Mae'n ddefnyddiol os bydd staff yn nodi'r rheswm pam nad yw'r meysydd yn gymwys i'r claf unigol.

Roedd amrywiaeth o asesiadau risg yn nodi'r risgiau cysylltiedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli. Roedd asesiadau a gwaith monitro da mewn perthynas ag iechyd corfforol wedi'u cofnodi yn nodiadau'r cleifion hefyd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen rhai gwelliannau wrth gwblhau monitro iechyd corfforol a gwnaethom drafod nifer o achosion penodol gyda'r staff perthnasol yn ystod yr arolygiad.

---

<sup>2</sup> Mae Adrannau 135 ac 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ymwneud â phwerau cadw'r heddlu a lleoedd diogel.

Roedd tystiolaeth fod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion a, lle bo'n briodol, bod aelodau teulu yn cael eu cynnwys yn y trefniadau cynllunio gofal. Roedd cynllunio ar gyfer rhyddhau yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl er mwyn nodi'r canlyniad mwyaf priodol i'r claf.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cofnodion monitro iechyd corfforol yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn ac yn cael eu cynnal yng nghofnodion y cleifion.

### **Deddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**

Pan oedd angen, roedd y staff wedi cyfeirio at yr awdurdod lleol er mwyn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar gyfer cleifion perthnasol. Roedd yn amlwg bod y broses yn cael ei gweithredu'n briodol.

Roedd y ward yn cynnal cofnod o geisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a chopïau o waith papur perthnasol. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y cais diweddaraf wedi cael ei ychwanegu at y ffeil ar gyfer achosion o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac felly roedd yn rhaid i'r staff gadarnhau p'un a oedd y claf yn destun cyfyngiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, fel y nodir yng nghofnod y claf, ai peidio.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ward yn cynnal cofnod cyfredol o geisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd Ward Cenhinen Bedr yn cael ei rheoli gan reolwr y ward, a oedd yn darparu arweinyddiaeth gref i dîm ymroddedig ar y ward a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu lefel uchel o ofal i gleifion.

Roedd tystiolaeth o waith tîm amlddisgyblaethol da ac ymgysylltiad agos â thimau cymunedol i gyflymu amser adfer a lleihau hyd y cyfnod yn yr ysbyty.

Nid oedd unrhyw swyddi gwag ar Ward Cenhinen Bedr yn ystod ein harolygiad.

Mae angen gwella cyfraddau cwblhau rhai modiwlau o hyfforddiant staff gorfodol.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom fod systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod y ward yn canolbwyntio ar wella ei gwasanaethau yn barhaus. Roedd yn amlwg drwy gydol yr arolygiad fod y staff yn barod i dderbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Roedd arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig gan reolwr y ward, a oedd yn cael ei gefnogi gan dîm ward ymrwymedig a thîm amlddisgyblaethol cryf a thrwy ymgysylltiad agos â'r timau cymunedol. Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Roedd y staff yn siarad yn gadarnhaol ynghylch yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarperir gan reolwr y ward. Dywedodd y staff hefyd fod gwaith tîm a morâl y staff ar y ward yn dda iawn.

Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwr y ward ac uwch-aelodau'r bwrdd iechyd, gan gynnwys y nyrs arweiniol ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn a'r nyrs gwella ansawdd.



Roedd y ward yn ceisio darparu lefelau uchel o ofal i'r grŵp cleifion i gyflymu amser adfer a lleihau hyd yr amser yn yr ysbyty. Roedd hyn yn cael ei gefnogi trwy waith agos a chynhyrchiol gyda'r tîm REACT<sup>3</sup> a thimau iechyd meddwl cymunedol<sup>4</sup> i bobl hŷn. Gwnaeth staff y ward ac uwch-reolwyr sylwadau cadarnhaol ar y gefnogaeth gan y timau cymunedol a'r gwaith tîm rhwng yr ysbyty a thimau cymunedol.

Roedd adborth cleifion ar y gofal roeddent wedi'i dderbyn, ar y ddwy ward, yn gadarnhaol iawn.

## **Staff ac adnoddau**

### **Gweithlu**

Agorodd Ward Cenhinen Bedr ym mis Medi 2017 ar ôl cyfuno wardiau Dwyrain 14 a Dwyrain 16 ym mhrif Ysbyty Llandochau a'u hadleoli yn Uned Llanfair ar dir Ysbyty Llandochau. Roedd tîm y staff ar Ward Cenhinen Bedr yn bennaf yn cynnwys staff a oedd eisoes yn gweithio ar wardiau Dwyrain 14 neu Ddwyrain 16. Nid oedd unrhyw swyddi gwag ar Ward Cenhinen Bedr ar adeg ein harolygiad.

Ar y cyfan, roedd staff y ward ac uwch-reolwyr yn gadarnhaol ac yn ganmoliaethus ynghylch sut oedd staff y ward wedi dod ynghyd i fod yn dîm agos ar Ward Cenhinen Bedr o fewn pedwar mis.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â hwy fod tîm agored a bod cyfathrebu da rhwng aelodau'r tîm. Dywedodd y staff os oeddent am gael eglurhad ynghylch unrhyw faterion y gallent siarad â'u rheolwr neu aelod o'r tîm. Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod bod cyfarfodydd proffesiynol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u bod yn gadarnhaol ac yn adeiladol ac yn galluogi gwaith tîm gwell. Fodd bynnag, ers symud, roedd y ward wedi bod yn brysur iawn wrth sicrhau cyfnod pontio hawdd i'r staff a'r cleifion ac roedd wedi bod yn anodd

---

<sup>3</sup> Mae'r tîm REACT (acronym Saesneg ar gyfer "Response Enhanced Assessment Crisis Treatment") yn darparu gwasanaeth argyfwng penodol i bobl hŷn sy'n dioddef o ddementia, iselder neu seicosis.

<sup>4</sup> Mae timau iechyd meddwl cymunedol yn darparu asesiadau rheng flaen a thriniaeth a gofal dilynol i gleifion yn y gymuned sy'n dioddef o ddementia, iselder neu seicosis.

cynnal cyfarfodydd ward rheolaidd. Cadarnhaodd rheolwr y ward y byddai cyfarfodydd ward rheolaidd yn cael eu hailsefydlu cyn bo hir.

Wrth adolygu hyfforddiant staff, canfuom fod meysydd o gydymffurfiaeth uchel ond hefyd diffygion mewn hyfforddiant gorfodol, megis ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, diogelu oedolion a phlant, a hyfforddiant tân. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol. Mynegodd rhai aelodau staff hefyd eu dymuniad i dderbyn hyfforddiant tân ychwanegol o ran achos o dân yn ystod y nos am eu bod yn teimlo y byddai hyn yn sefyllfa wahanol i achos yn ystod y dydd.

Roedd y staff yn cael arfarniad personol ac adolygiad datblygiad blynyddol. Er bod oddeutu 50% o'r staff heb gael un o'r rhain yn ystod y 12 mis diwethaf, roedd dyddiadau i'r holl staff ymgymryd ag arfarniad personol ac adolygiad datblygiad wedi'u cadarnhau.

Yn ystod ein sgysiau gyda'r staff, gwnaethant godi nifer o bryderon ynghylch ymgymryd â dyletswyddau a oedd yn eu hatal rhag darparu gofal uniongyrchol i gleifion ers symud i Uned Llanfair. Roedd y rhain yn cynnwys mynd â'r golch i'r ward ac oddi yno (yn enwedig gyda'r nos) ac archebion fferyllfa bob hyn a hyn, a oedd yn gofyn i'r staff adael y ward i gymryd archebion a chasglu meddyginiaeth o brif fferyllfa'r ysbyty.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd tîm rheolaidd ar Ward Cenhinen Bedr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r hyfforddiant tân i sicrhau ei fod yn bodloni amcanion dysgu'r staff ar gyfer y cwrs.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod yr holl staff wedi derbyn arfarniad personol ac adolygiad datblygiad o fewn y 12 mis diwethaf.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gefnogaeth a roddir i Uned Llanfair gan gyfarwyddiaethau eraill i leihau'r effaith ar allu staff y ward i ddarparu gofal uniongyrchol i gleifion.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl y GIG fel arfer yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl y GIG yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) ac yn gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Uned Llanfair

**Ward:** Ward Cenhinen Bedr

**Dyddiad yr arolygiad:** 9 – 11 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Uned Llanfair

**Ward:** Ward Cenhinen Bedr

**Dyddiad yr arolygiad:** 9 – 11 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r bwrdd iechyd cefnogi'r ward gyda'i chynlluniau i ddatblygu'r ardd i wella profiad y claf.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae tîm y ward yn gweithio gyda'n hadran ystadau ac mae mwy o gynnydd wedi cael ei wneud ers yr arolygiad.	Rheolwr y Ward	Adolygiad Mehefin 18
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y gwaith ystadau sy'n weddill ar gyfer Ward Cenhinen Bedr yn cael ei gwblhau mor gyflym â phosibl.	4.1 Gofal ag urddas	Mae'r rhestr o eitemau ystadau sy'n weddill a nodwyd yn yr arolygiad wedi derbyn sylw ac mae bron wedi cael ei gorffen.	Rheolwr y Ward	Adolygiad 30 Ebrill 18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth a manylion cyswllt ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	Bydd tîm y ward yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei harddangos.	Rheolwr y Ward	31 Mawrth 18
Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod gwybodaeth yn esbonio'r broses i adael y ward i gleifion nad ydynt yn gyfyngedig gan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ger allanfa'r ward.	6.2 Hawliau pobl	Gofynnwyd i'r adran ystadau adleoli'r bwrdd gwybodaeth.	Rheolwr y Ward	31 Mawrth 18
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y synwryddion gwely'n gweithio'n effeithiol ond heb amharu ar gwsg cleifion eraill.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Bydd rheolwr y ward yn cyfarfod â Carecom, darparwyr y larymau, yn yr wythnos sy'n dechrau 12 Chwefror 2018.	Rheolwr y Ward	31 Mawrth 18
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu arsylwi ar gleifion drwy baneli arsylwi ystafelloedd gwely i leihau'r angen i fynd i mewn i'r ystafelloedd gwely.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae'r allweddi angenrheidiol i alluogi hyn wedi cael eu caffael a'u dosbarthu.	Rheolwr y Ward Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod y gwaith gwrth-glymu ychwanegol sydd yn yr arfaeth, i	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo	Dyma brosiect ar draws cyfarwyddiaethau sydd dal ar waith.	Uwch-reolwr Nyrsio /	30 Mehefin 18



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
symud rhai pwyntiau clymu, wedi cael ei gwblhau.	iechyd a diogelwch	Mae'r amgylchedd eisoes wedi bod yn destun asesiadau clymu helaeth ac mae nifer bach o bwyntiau clymu posib yn dal i fodoli.  Caiff cleifion eu hasesu'n unigol er mwyn rhoi ystyriaeth i'r risgiau.	Nyrs Arweiniol / Rheolwr Nyrsys y Gyfarwyddiaeth	
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system fwyaf ymatebol o ran diogelwch cleifion ar waith yn Uned Llanfair pe bai achos o argyfwng meddygol.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Mae'r gyfarwyddiaeth wedi gofyn am gymorth gan y byrddau clinigol a gweithredol i ddatblygu'r mater penodol o ymateb i argyfwng meddygol ac mae adolygiad yn mynd rhagddo. Fel y mae AGIC wedi nodi, mae gan dîm y ward gynllun ymateb dros dro ar waith.  Bydd y bwrdd iechyd prifysgol yn parhau i fonitro unrhyw ddiogelwch cleifion yr adroddir amdanynt mewn perthynas â'r mater hwn.	Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol / Y Bwrdd Clinigol / Nyrs Arweiniol  Cyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol / Y Bwrdd Clinigol / Nyrs Arweiniol	30 Tachwedd 18  Sefydlwyd fel rhan o arfer arferol
Dylai'r bwrdd iechyd ymgymryd â gwelliannau i'r Ystafell Gofal Dwys i helpu staff wrth ddarparu	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a	Ar hyn o bryd, mae rheolwr y ward yn gweithio gyda'n hymgyngorydd clinigol ar ymyrryd yn gorfforol ac eraill i	Rheolwr y Ward	31 Mai 18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cefnogaeth ddiogelwch i gleifion.	diogelwch	ddatblygu'r ystafell hon.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o le i storio dillad a dillad gwely ar Ward Cenhinen Bedr.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae'r stoc o ddillad/dillad gwely wedi cael ei hadolygu a'i chynyddu.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau a bydd bellach yn rhan o stoc ddillad ddyranedig arferol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llestri a'r cylyll a ffyrc yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u disodli yn ôl yr angen.	2.5 Maetheg a hydradiad	Mae'r llestri a'r cylyll a ffyrc wedi cael eu hadolygu ac maent mewn cyflwr da. Bydd y gyfarwyddiaeth yn parhau i ddisodli llestri a chyllyll a ffyrc yn ôl yr angen.	Rheolwr y Ward	Sefydlwyd fel rhan o arfer arferol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystafell y clinig ar Ward Cenhinen Bedr yn drefnus ac yn daclus.	2.6 Rheoli meddyginiaeth au	Ers yr arolygiad, mae'r ystafell wedi cael ei had-drefnu a'i thacluso.  Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa o'r gofyniad i gadw'r ystafell yn daclus a chaiff hyn ei fonitro fel rhan o arfer arferol.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troli meddyginiaeth yn cael ei ddisodli.	2.6 Rheoli meddyginiaeth	Mae'r troli meddyginiaeth newydd bellach wedi cyrraedd.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	au			
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y troli meddyginiaeth wedi'i ddiogelu yn ystafell y clinig pan nad yw'n cael ei ddefnyddio.	2.6 Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r troli bellach wedi'i ddiogelu. Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa o'r gofyniad hwn.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr oergell feddyginiaeth wedi'i chloi pan nad yw'r staff yn ei defnyddio.	2.6 Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r oergell bellach wedi'i chloi ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r ffaith mai dyma ddylai fod yn digwydd bob tro pan nad yw'n cael ei defnyddio.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Dylai'r bwrdd iechyd fonitro tymheredd amgylchynol ystafell y clinig.	2.6 Rheoli meddyginiaeth au	Mae thermomedr amgylchynol wedi cael ei archebu. Bydd proses ar gyfer monitro'r tymheredd yn rheolaidd yn cael ei rhoi ar waith.	Rheolwr y Ward	28 Chwefror 18 I'w sefydlu unwaith y bydd thermomedr yn ei le
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn cael eu cwblhau i gynnwys yr hyn sy'n ofynnol, sef gwybodaeth bersonol am y claf a llun adnabod diweddar.	2.6 Rheoli meddyginiaeth au	Mae'r holl siartiau'n gyfredol a byddant yn parhau i gael eu monitro ar rowndiau ward. Ymgwymerir ag archwiliad misol arferol o siartiau meddyginiaeth gan staff y fferyllfa fel rhan o'r metrigau perfformiad	Rheolwr y Ward Fferylliaeth	Cwblhawyd Sefydlwyd fel rhan o arfer

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		a ddefnyddir mewn adolygiadau misol o berfformiad gweithredol.		arferol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau o ddyddiadau dod i ben offer dadebru yn cael eu cwblhau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.	2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Mae hyn wedi cael ei weithredu a bydd yn ffurfio rhan o arfer arferol ar y ward.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd Adolygu'n rheolaidd yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu systemau cofnodion cleifion i leihau achosion o ddyblygu gwybodaeth ac i sicrhau bod cofnodion papur ac electronig yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf.	3.5 Cadw cofnodion	Mae'r bwrdd iechyd yn cydnabod mai problem gymhleth yw hon ac mae'n ymgymryd ag adolygiad o systemau cofnodi gyda golwg ar atal dyblygu a rhoi monitro rheolaidd ar waith.	Uwch-reolwr Nyrsio / Rheolwr y Ward	31 Mai 18
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffordd addas i orchuddio gwybodaeth gyfrinachol ar Fyrddau Cypolwg ar Statws Cleifion pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.	3.5 Cadw cofnodion	Mae bleind rholio wedi cael ei archebu.	Rheolwr y Ward	31 Mawrth 18
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod clinigwyr cyfrifol yn cofnodi canlyniadau manwl asesiadau galluedd.	Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl	Bydd y cyfarwyddwr clinigol yn atgoffa'r holl seiciatryddion ymgynghorol o'u rhwymedigaeth yn hyn o beth.	Cyfarwyddwr Clinigol	16 Chwefror 18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cofnodion monitro iechyd corfforol yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn ac yn cael eu cynnal yng nghofnodion y cleifion.	Monitro'r Mesur Iechyd Meddwl	Mae rheolwr y ward wedi atgoffa staff yn unigol ac mewn grwpiau. Bydd dogfennau'n parhau i fod yn destun archwiliad rheolaidd.	Rheolwr y Ward / Nyrs Arweiniol	Cwblhawyd Mae'r archwiliad wedi'i ymgorffori fel rhan o arfer arferol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y ward yn cynnal cofnod cyfredol o geisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.	Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid	Mae'r holl waith papur yn ymwneud â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid wedi'i ddiweddarau a bydd proses ar waith i sicrhau bod hyn yn parhau ac yn cael ei archwilio'n rheolaidd.	Nyrs Arweiniol	Cwblhawyd Adolygiad Mehefin 18
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd tîm rheolaidd ar Ward Cenhinen Bedr.	7.1 Gweithlu	Mae cyfarfodydd rheolaidd bellach yn cael eu cynnal.	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei ymgorffori fel rhan o arfer arferol
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn	7.1 Gweithlu	Mae rheolwr y ward wedi cytuno i strwythur hyfforddiant gorfodol	Rheolwr y Ward	31 Awst 18 /

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cwblhau eu hyfforddiant gorfodol.		ychwanegol o 75% erbyn diwedd mis Awst 2018 a 90% erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Caiff hyn ei fonitro drwy strwythurau Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn y bwrdd clinigol.		31 Mawrth 19
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r hyfforddiant tân i sicrhau ei fod yn bodloni amcanion dysgu'r staff ar gyfer y cwrs.	7.1 Gweithlu	Mae mwy o hyfforddiant tân sy'n fwy perthnasol i Uned Llanfair wedi cael ei gynnal ers yr arolygiad a bydd hyfforddiant yn parhau'n rheolaidd.	Rheolwr y Ward	Cwblhawyd
Rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod yr holl staff wedi derbyn arfarniad personol ac adolygiad datblygiad o fewn y 12 mis diwethaf.	7.1 Gweithlu	Y gydymffurfiaeth â chyfraddau arfarniad personol ac adolygiad datblygiad yw 50%, gyda tharged o 58% erbyn diwedd mis Chwefror 2017, 67% erbyn diwedd mis Ebrill 2018, a 100% erbyn diwedd mis Awst 2018.	Rheolwr y Ward / Rheolwr y Gyfarwyddiaeth / Nyrs Arweiniol	31 Awst 18
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cymorth a roddir i Uned Llanfair gan gyfarwyddiaethau eraill i leihau'r effaith ar allu staff y ward i ddarparu gofal uniongyrchol i gleifion.	7.1 Gweithlu	Bydd y gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda'r bwrdd clinigol a gwasanaethau cefnogi ar safle Ysbyty Athrofaol Llandochoau i nodi diffygion o ran y cymorth sydd ar gael i Uned Llanfair. Cytunwyd ar gefnogaeth deg gan yr adran ddiogelwch ac mae nifer o'r staff wedi cael yr awdurdod i yrru cerbydau'r	Nyrs Arweiniol / Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Adolygiad Mehefin 18

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bwrdd iechyd prifysgol i helpu wrth gludo cleifion i'r prif adeilad lle y bo angen. Bydd y gyfarwyddiaeth yn trafod unrhyw faterion sy'n weddill ynghylch porthorion a'r fferyllfa gyda'r bwrdd iechyd prifysgol.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Carol Evans

**Swydd:** Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelwch Cleifion ac Ansawdd

**Dyddiad:** 14 Chwefror 2018